

Y Ddyletswydd i Roi Gwybod am Oedolyn Mewn Perygl



Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i ddiogelu plant ac oedolion.

Mae rhagor o wybodaeth yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru <https://www.diogelu.cymru/>

Pryd y dylid rhoi gwybod:

Dylid gwneud adroddiad pryd bynnag y mae pryderon am oedolyn mewn perygl:

- sy'n profi, neu mewn perygl o brofi camdriniaeth neu esgeulustod,
- sydd ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio)
- **ac** o ganlyniad i'r anghenion hynny nid ydynt yn gallu amddiffyn eu hunain yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod, neu yn erbyn y perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Os oes gan unrhyw un wybodaeth, pryderon neu amheuan bod oedolyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o ddioddef camdriniaeth, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu sydd â dyletswyddau statudol a phwerau i wneud ymholiadau ac i ymyrryd os oes angen.

Mae'n rhaid i bob asiantaeth adrodd unrhyw bryderon diogelu yn yr un ffordd â'r rhai hynny sydd â dyletswydd benodol i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr a gyflogir a rhai nad ydynt yn cael eu cyflogi mewn sefydliadau trydydd sector (hyn yn cynnwys: contractwyr ac is-contractwyr annibynnol, gweithwyr proffesiynol annibynnol a sefydliadau preifat). Dylai gwirfoddolwyr gytuno i gadw at y cod ymddygiad gyda'r sefydliad y maent yn gwirfoddoli iddo.

Diffiniadau

Camdriniaeth : gall fod yn gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (yn cynnwys dwyn, twyll, pwysau ariannol, camddefnyddio arian) mewn unrhyw leoliad.

Esgeulustod: Mae hyn yn golygu methiant i fodloni anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o amharu ar les yr unigolyn (er enghraifft, amharu ar eu hiechyd).

Gallai'r ymddygiadau canlynol hefyd wneud yr oedolyn yn agored i gamdriniaeth neu esgeulustod,

- Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) , mae hyn yn cynnwys Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Caethwasiaeth Fodern
- Cam-drin domestig a thrais yn erbyn dynion
- Cam-fanteisio troseddol
- Hunan Esgeulustod